Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 49 Pris i Aelodau: £5.00 y flwyddyn Pris i'r Cyhoedd: £1.30 y rhifyn Gwanwyn 1993

## DIOLCH

Dyma'r 49fed rhifyn o *Y Casglwr.* Mae pob rhifyn wedi ymddangos yn ei bryd a'i amser: ni fu erioed rifyn nad oedd yn llawn o bethau difyr i'w darllen neu edrych arnynt. Ers y rhifyn cyntaf hwnnw ym mis Mawrth 1977 mae aelodau Cymdeithas Bob Owen wedi arfer disgwyl yn eiddgar am dderbyn eu copïau ac ni chawsant eu siomi byth.

John Roberts Williams fu'r golygydd o'r dechrau cyntaf. Ysgrifennodd ambell erthygl ei hun ond hebddo ef prin y caed erthygl gan neb arall. Trwy'r blynyddoedd bu'n annog, yn edliw, yn atgoffa, yn pwyso, yn awgrymu, yn ffonio, yn ysgrifennu, yn cerdded, i sicrhau fod deunydd ar gael i'r gweddill ohonom: ac nid casglu deunydd yn unig, ond ei gyflwyno'n ddeniadol ar y tudalen. Bu'r Gymdeithas yn hynod ffodus i gael golygydd proffesiynol profiadol fel John Roberts Williams i osod *Y Casglwr* yn gadarn ar ei draed.

Nawr mae John yn dymuno cael seibiant, ac ofer fu pob ymgais i'w gael i newid ei feddwl. Wedi un mlynedd ar bymtheg rhaid parchu ei ddymuniad; ond mae'n ymddeol o'r swydd yn sŵn diolch diffuant pawb ohonom am lafur enfawr tros y blynyddoedd. Mae'n dyled yn fawr iddo, ond fe ŵyr ef am lwyddiant ei lafur, a sylweddolwn ninnau gymaint o lafur cariad ydoedd.

Fel arwydd o werthfawrogiad o gyfraniad John i 48 rhifyn o *Y Casglwr* dyma gyhoeddi isod ran o hen engrafiad o dref a chastell Caernarfon. Gwaith yr enwog John Boydell ydyw ac fe'i cyhoeddwyd yn 1750. Fe gyhoeddodd Boydell ddau engrafiad o Gaernarfon, un yn olygfa o'r gogledd orllewin a'r llall o'r dwyrain. Yr un o'r dwyrain a atgynhyrchir yma. Swllt yr un oedd pris yr engrafiadau hyn yn 1749/50.

